Adroddiad ar

Ysgol Llanystumdwy

Llanystumdwy
Cricieth
Gwynedd
LL52 0SP

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanystumdwy

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanystumdwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 25 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 22 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 68.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/06/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanystumdwy yn darparu amgylchedd dysgu cyfeillgar lle mae disgyblion, staff a rhieni yn teimlo’n rhan o gymuned glòs. Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn sicrhau bod lles disgyblion a pherthnasoedd gwaith cadarn wrth wraidd y ddarpariaeth addysgol. Mae’r ffocws hwn yn amlwg yng ngwaith dyddiol y staff ac yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o ddiogelwch, ymddiriedaeth a pharch ymhlith y disgyblion.

Mae staff yn adnabod anghenion lles a dysgu’r disgyblion yn dda, ac, o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol. Maent yn cydweithio’n effeithiol ac yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad priodol wrth ymgysylltu â’u gwaith. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol buddiol yn cryfhau gallu staff i gefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol neu ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cydweithio effeithiol rhwng staff, teuluoedd ac asiantaethau allanol yn helpu disgyblion ag anghenion emosiynol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu yn fuddiol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer gwerthuso ansawdd yn addas. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau’r ysgol a rhai meysydd i’w gwella yn briodol, ar y cyfan. Nid yw gweithgareddau gwerthuso ansawdd arweinwyr bob amser yn canolbwyntio’n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae’r cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu pwrpasol sy’n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth llafar yn fwriadus i gefnogi disgyblion i adalw dysgu blaenorol ac i feddwl yn ddyfnach am eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw gweithgareddau bob amser yn herio dysgu ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gryf, ac erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a’r Saesneg. Cryfder nodedig y ddarpariaeth yw’r dulliau a ddefnyddir i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Trwy hyn, mae llawer yn siarad yn glir ac yn defnyddio iaith gyfoethog mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cryfhau prosesau gwella ansawdd

A2 Darparu profiadau er mwyn herio dysgu’r disgyblion yn gyson

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Llanystumdwy yn gymuned ddysgu gynhwysol, groesawgar a chefnogol. Mae gan ddisgyblion, staff a rhieni ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned glòs. Mae'r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig ac yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith yr ysgol. Mae ei gweledigaeth, sef bod pawb yn 'Tyfu gyda'n gilydd', yn rhoi pwyslais cryf ar les a hapusrwydd disgyblion fel sail i ddysgu llwyddiannus. Mae'r pennaeth wedi rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach.

### Ciplun: Arweinyddiaeth strategol sy'n canolbwyntio ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu

Mae arweinyddiaeth strategol y pennaeth yn cefnogi bod hybu lles disgyblion yn greiddiol i holl agweddau gwaith yr ysgol. Mae hyn yn creu amgylchedd cefnogol a chynhwysol sy'n galluogi disgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac i lwyddo. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol â disgyblion, wedi'u seilio ar barch, gofal ac ymddiriedaeth. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion unigol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am rywbeth, ac maent yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cefnogi'n gyson yn yr ysgol.

Mae datblygiad proffesiynol bwriadus yn cryfhau hyder a gallu staff i gefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth pellach yn gynnar ac yn darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol sy'n hybu lles disgyblion yn ofalus ac yn sensitif. Trwy gydweithio effeithiol â theuluoedd ac asiantaethau allanol, mae staff yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu ac at eraill, yn datblygu gwydnwch ac annibyniaeth yn fedrus, ac yn dangos ymrwymiad cynyddol i'w dysgu. Mae hyn yn cefnogi presenoldeb rheolaidd disgyblion yn yr ysgol, ymddygiad cadarnhaol a chyfraniad ystyrlon i fywyd yr ysgol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun ac eraill. Caiff ei chefnogi gan dîm bach o staff ymroddgar sy'n gweithio'n ddiwyd i ddarparu cwricwlwm cytbwys i ddisgyblion. Mae'r cwricwlwm yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion ac yn tanio eu dychymyg yn bwrpasol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â disgyblion sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus sy'n meithrin amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda ac ymgolli yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r amgylchedd cadarnhaol yn cefnogi llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd priodol dros amser.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu pwrpasol i ddisgyblion ac yn ystyried hoffterau a dyheadau disgyblion yn fwriadus er mwyn eu hannog i berchnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Darperir ymweliadau addysgol ac ymwelwyr i'r ysgol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion sydd, yn ei dro, yn diwallu anghenion dysgu llawer o ddisgyblion yn addas. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw gweithgareddau sy'n cael eu darparu gan athrawon yn herio dysgu ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi treiddgar i adalw dysgu blaenorol ac yn darparu amser priodol i ddisgyblion feddwl yn ddyfnach am eu dysgu. Ar y cyfan, mae staff yn cynnig adborth llafar defnyddiol. Mae hyn yn annog disgyblion i ystyried yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda ac yn eu cefnogi i wella eu gwaith yn bwrpasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gadarn. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio ystod gyfoethog o adnoddau darllen yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau darllen cynnar yn llwyddiannus ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei ddarllen. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn fedrus yn y ddwy iaith. Maent yn ymdrin yn hyderus â thestunau ffeithiol a ffuglen sy'n eu galluogi i gael mynediad cyson i feysydd ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n llwyddiannus at wahanol ddibenion, gyda llawer yn dangos balchder cynyddol at eu gwaith. At ei gilydd, mae'r adborth a ddarperir gan athrawon ar waith ysgrifenedig disgyblion yn anghyson. Yn rhy aml, nid yw'r adborth yn nodi agweddau penodol y mae angen i ddisgyblion eu gwella yn ddigon cyson.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion. Mae athrawon yn modelu defnydd cyson o'r Gymraeg ar draws ystod eang o gyd-destunau yn effeithiol. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu i siarad yn hyderus ac yn glir. Mae llawer yn defnyddio iaith gyfoethog ac yn cynnig rhesymau ystyrlon i gefnogi eu barn.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau mathemateg a rhifedd. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau go iawn ar draws y cwricwlwm yn fuddiol. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio ystod addas o ddulliau wrth gyfrifo a datrys problemau. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau digidol mewn cyd-destunau pwrpasol, fel wrth greu cyflwyniadau creadigol mewn clipiau digidol perthnasol.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn briodol. Mae arweinwyr yn ystyried ystod addas o dystiolaeth berthnasol yn bwrpasol. Mae hyn yn cefnogi arweinwyr i ddatblygu dealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a rhai meysydd i'w gwella. Ar y cyfan, maent yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella yn

amserol. Er hyn, nid yw gweithgareddau gwerthuso ansawdd bob tro'n canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol yn cefnogi datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau staff yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella ac yn ymateb i anghenion datblygu staff unigol yn effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol ac yn cynnig cefnogaeth fwriadus i'r pennaeth a'r staff. Maent yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda ac yn cefnogi a herio arweinwyr yn adeiladol, lle bo angen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin medrau cymdeithasol cadarn drwy gydweithio ag eraill. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgaredd gyda 'Ffrindiau'r Ysgol' i godi arian ar gyfer prynu offer chwarae newydd yn yr ardal tu allan. Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i ymgymryd â rolau arwain, fel hybu diogelwch y ffyrdd ymysg eu cyfoedion. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn datblygu medrau pwysig fel cynllunio a chyfathrebu. Darperir cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol gan athrawon i ddisgyblion fyfyrio ar faterion ysbrydol a moesol. Trwy brofiadau ystyrlon, mae disgyblion yn cael eu hannog i drafod eu teimladau a'u credoau, fel wrth fwynhau cerdded yn yr awyr iach tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae profiadau allgyrsiol, fel cystadlu mewn eisteddfodau, yn ehangu gorwelion a dyheadau disgyblion yn bwrpasol ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u treftadaeth yn briodol. Mae hyn yn hybu balchder disgyblion yn eu Cymreictod ac yn cefnogi eu hymdeimlad o berthyn i'w hardal leol a Chymru yn llwyddiannus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026